**Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru**

**Ystafell Gynadledda C, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd**

**5 Rhagfyr 2019**

## Cofnodion

## Yn bresennol

**Jane Hutt AC,** Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip (Cadeirydd)
**Tracey Burke,** Cyfarwyddwr Cyffredinol, Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru
**Jo-Anne Daniels,** Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl, Gwasanaethau Corfforaethol a Llywodraethu'r GIG, Llywodraeth Cymru
**Reg Kilpatrick,** Cyfarwyddwr Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru
**Tracey Breheny,** Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Cyffuriau, Llywodraeth Cymru
**Gary Haggaty,** Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Diogelwch Cymunedol, Llywodraeth Cymru
**Karin Phillips,** Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Diogelwch Cymunedol, Llywodraeth Cymru
**Siân Brown,** Tîm Troseddau a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru
**Naomi Alleyne**, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyhoeddus a Thai, CLlLC
**Y Cynghorydd Matthew Dorrance**, Llefarydd Diogelwch Cymunedol CLlLC
**Steve Carr,** CLlLC/Plismona yng Nghymru
**Dafydd Llywelyn,** Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Heddlu Dyfed-Powys a Chadeirydd Grŵp Plismona Cymru Gyfan
**Carys Morgans,** Prif Weithredwr, Tîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
**Jeff Cuthbert**, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent
**Eleri Thomas,** Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent
**Arfon Jones,** Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru
**Stephen Hughes,** Prif Swyddog Gweithredol, Tîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru
**Alun Michael,** Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
**Mark Collins,** Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys a Chadeirydd Grŵp Prif Swyddogion Cymru
**Pam Kelly,** Prif Gwnstabl Heddlu Gwent
**Carl Foulkes,** Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru
**Jeremy Vaughan,** Dirprwy Brif Gwnstabl Heddlu De Cymru
**Jonathan Drake,** Darpar Bennaeth Uned Atal Trais Cymru Gyfan (AWVPU)
**Steve Thomas,** Uwch-arolygydd, Uned Gyswllt yr Heddlu
**Helen Hill,** Gweinyddwr, Uned Gyswllt yr Heddlu (cymryd cofnodion)

## Ymddiheuriadau

**Mark Drakeford AC,** Prif Weinidog Cymru
**Vaughan Gethin AC**, Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
**Julie Morgan AC,**Y Dirprwy Weinidog Iechyd
**Andrew Goodall**, Cyfarwyddwr Cyffredinol Gwasanaethau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/GIG Cymru, Prif Weithredwr

**Y Cynghorydd Debbie Wilcox, Arweinydd CLlLC**
**Matt Jukes**, Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru
**Paul Morris,** Pennaeth Uned Cyswllt yr Heddlu
**Emma Wools**, Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
**Lee Jones,** Pennaeth Staff, Tîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
**Cerith Thomas** , Cynghorydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i Dîm Plismona Cymru Gyfan
**Sian Curley**, Prif Swyddog Gweithredol, Tîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent
**Chris O'Driscoll,** Arolygydd, Uned Cyswllt yr Heddlu

**1. Anerchiad agoriadol y Cadeirydd (Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau)**

1.1 Croesawodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip Jane Hutt bawb i'r cyfarfod a nodwyd ymddiheuriadau.

**2. Cyflwyniad ar y Polisi Camddefnyddio Sylweddau yng Nghymru a'i gysylltiadau â'r meysydd canlynol (DCC Jeremy Vaughan a PCC Arfon Jones)**

2.1 Dosbarthodd DCC Vaughan adroddiad cyn y cyfarfod a rhoddodd grynodeb o'r papur yn tynnu sylw at y darlun presennol o ran marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau ledled Cymru. Aeth PCC Jones ymlaen i awgrymu opsiynau sydd eu hangen, yn ôl yr heddlu, er mwyn sicrhau newid sylweddol wrth fynd i'r afael â'r argyfwng penodol hwn.

2.2 Nodwyd mai Cymru yw'r rhanbarth â'r nifer mwyaf ond un o farwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau yn y DU ar hyn o bryd (Gogledd-ddwyrain Lloegr sydd â'r nifer mwyaf). Abertawe sydd â'r nifer mwyaf ond un a Chastell-nedd Port Talbot sydd â'r nifer mwyaf ond dau ledled Cymru a Lloegr.

2.3 Eglurodd DCC Vaughan effaith y llinellau cyffuriau presennol a llinellau cyffuriau sy'n dod i'r amlwg ledled Cymru, gyda'r mwyafrif ohonynt wedi'u lleoli yng Nghaerdydd ac Abertawe.
Trafodwyd cysylltedd cyfeiriadau "cwcw", cymell pobl sy'n agored i niwed, oedolion sy'n cael eu masnachu a chynnydd trawiadol o ran troseddau sy'n ymwneud â chyllyll. Y pwyslais clir oedd bod troseddau sy'n ymwneud â chyllyll a chamddefnyddio cyffuriau yn gorgyffwrdd.

2.4 Eglurwyd y swm anferth o waith cudd-wybodaeth i nodi cyflenwadau cyffuriau ac amharu arnynt, wedi'i arwain gan yr Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol, sef TARIAN. Mae camau rhagweithiol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â gwerthu cyffuriau, yn ogystal â chamddefnyddio cyffuriau ar lefel y stryd. Rhannwyd astudiaeth achos bwerus er mwyn rhoi enghraifft o'r effaith y mae gwerthu cyffuriau yn ei chael ar y gymuned ehangach yn ogystal ag unigolion.

2.5 Yn ystod y cyflwyniad, rhannodd PCC Alun Michael ffeithluniau a oedd yn tynnu sylw at raglen Dyfodol sydd wrthi'n cael ei chynnal yn Ne Cymru (mae rhaglenni tebyg ar waith ym mhob ardal heddlu). Roedd y ddogfen yn dangos

y cyllid a ddyrennir a'r adnoddau sydd ar gael, a'r bwriad oedd rhoi trosolwg clir o'r cyllid a ddyrennir o'r dechrau i'r diwedd, gan gynnwys yr effeithiau a'r heriau sy'n deillio o'r galw, yn gymdeithasol ac ar y system Cyfiawnder Troseddol.

2.6 Cydnabu DCC Vaughan Gynllun Cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Roedd yn gefnogol iawn i'r cynnwys, ond dywedodd fod gwasanaethau cyhoeddus bellach mewn argyfwng mewn rhai ardaloedd. O ganlyniad, dywedodd fod angen herio'r sefyllfa bresennol.

2.7 Eglurodd PCC Arfon Jones yr opsiynau sydd ar gael ar hyn o bryd i leihau niwed a chydnabu fod angen i unigolion fod yn barod i newid, ond pwysleisiodd ar yr un pryd fod rhwymedigaeth ar gyrff cyhoeddus i helpu.

2.8 Mae cynllun peilot o Chwistrellydd Trwynol Naloxone wedi dechrau yng Ngogledd Cymru drwy gefnogaeth y Bwrdd Cynllunio Ardal. Os bydd y cynllun peilot yn llwyddiannus, y gobaith yw y caiff ei gyflwyno ledled Cymru.

2.9 Cynllun gwrthdyniadol yw Checkpoint Cymru a gyflwynwyd yng Ngogledd Cymru yn ddiweddar. Nod Checkpoint Cymru yw mynd i'r afael ag achosion sylfaenol ymddygiad troseddol a gwrthdynnu pobl i ffwrdd o'r system cyfiawnder troseddol. Un o'r llwybrau sydd ar gael yw rhaglen addysg cyffuriau rhwng tair a phedair awr sy'n addysgu unigolion am effaith eu hymddygiad.

2.10 Soniodd PCC Jones am gynllun peilot yn Cleveland lle sefydlwyd Triniaeth â Chymorth Heroin. Rhoddir dos meddygol o heroin i unigolion â phroblemau dibyniaeth hirdymor ei chwistrellu ddwywaith neu deirgwaith y dydd o dan oruchwyliaeth gweithwyr proffesiynol cymwysedig. Nodwyd bod yr ymchwil yn awgrymu bod rhwng 10 a 15 o'r defnyddwyr mwyaf yn cyflawni'r rhan fwyaf o'r troseddau. Y gobaith yw y bydd cyflwyno Triniaeth â Chymorth Heroin yn lleihau'r farchnad anghyfreithlon tua 40%.

2.11 Mae sefydliadau amlasiantaeth sy'n cynnal profion cyffuriau, megis Loop UK, yn gweithredu ar hyn o bryd mewn gwyliau ledled Prydain yn profi ansawdd cyffur cyn iddo gael ei ddefnyddio. Awgrymwyd y dylai profion cyffuriau amlasiantaeth fod ar gael yn haws.

2.12 Tynnodd PCC Jones sylw at werth Ystafelloedd Cymryd Cyffuriau, gan gyfeirio at y datgysylltiad rhwng cynnig y cyfle i bobl gyfnewid nodwyddau yn ddiogel ac yna eu rhyddhau i'w defnyddio o dan amodau anhysbys, gan arwain at farwolaethau.

2.13 Honnwyd mai'r ddadl yn erbyn Ystafelloedd Cymryd Cyffuriau yw'r un ddadl ag a ddefnyddwyd yn erbyn y cynllun cyfnewid nodwyddau yn ôl yn y 1980au. Dywedodd PCC Jones ei fod yn ystyried cynnig Ystafell Cymryd Cyffuriau yng Ngogledd Cymru a'i fod wrthi'n trafod â'r Swyddfa Gartref er mwyn gweld a yw hyn yn bosibl.

2.14 Yn dilyn y nifer annerbyniol o uchel o farwolaethau a thrychiadau yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, dywedodd PCC Alun Michael fod Digwyddiad Tyngedfennol wedi'i godi. Disgwylir yr adolygiad ym mis Ionawr 2020. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried gwasanaethau a ddarperir yn lleol a bydd yn cydnabod nad oes ateb hawdd ar gael. Fodd bynnag, fe'i codwyd er mwyn atgyfnerthu'r cais i gydnabod bod y mater hwn yn effeithio ar bob gwasanaeth a chefnogi'r ddadl bod angen i bob corff cyhoeddus gydweithio mewn ffordd wahanol i newid y ffordd bresennol o ymdrin â chamddefnyddio cyffuriau. Nodwyd bod Bwrdd Cynllunio Ardal Bae Abertawe bellach yn bwrw ymlaen â gwaith y Grŵp Digwyddiad Tyngedfennol.

2.15 Gofynnodd DCC Vaughan am i weithgor gael ei greu. Awgrymwyd y dylai Gweinidog ei gadeirio a chafodd ei gefnogi gan y Prif Gwnstabl Matt Jukes a PCC Arfon Jones ar ran heddlu Cymru er mwyn sicrhau y caiff trafodaethau eu cynnal ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i gytuno ar ffordd o fynd i'r afael â'r argyfwng presennol yn y dyfodol.

2.16 Diolchodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip i DCC Vaughan, PCC Jones a PCC Michael am eu cyfraniad, a oedd yn cadarnhau bod marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau yn un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru a bod hwn yn fater trawslywodraethol.

2.17 Nodwyd ei bod yn bwysig i Lywodraeth Cymru gydnabod yr effaith ar bobl sy'n agored i niwed yn ogystal â'r gymuned gyfan a chytunwyd y gall yr Heddlu a Llywodraeth Cymru ddysgu llawer o wersi oddi wrth ei gilydd o ran lleihau niwed.

2.18 Roedd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip yn falch bod Cynllun Cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau yn cael ei gydnabod a'i gefnogi. Cadarnhawyd bod dibyniaeth yn cael ei hystyried yn broblem Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru a bydd y maes hwnnw yn cael £32 miliwn yn y gyllideb arfaethedig nesaf (cynnydd o 10%). Dyrennir swm ychwanegol o £18 miliwn i fyrddau iechyd lleol fel cyllid wedi'i glustnodi ar gyfer ymdrin â chamddefnyddio sylweddau.

## 3. <u>Trafodaeth agored ar thema'r cyfarfod (Polisi Camddefnyddio Sylweddau)</u>

3.1 Roedd PCC Dafydd Llywelyn yn cefnogi PCC Jones o ran defnyddio Ystafelloedd Cymryd Cyffuriau yng Nghymru gan fod partneriaid yn cael eu cefnogi'n llawn i ddarparu nodwyddau glân cyn i wasanaethau cyhoeddus ganiatáu'n anfwriadol i ddefnyddwyr roi eu hunain mewn perygl difrifol.

3.2 Dywedodd PCC Llywelyn ei fod yn cytuno bod angen i bob gwasanaeth cyhoeddus drin y sefyllfa hon fel argyfwng. Dywedodd y byddai cyn bo hir yn cadeirio uwchgynhadledd ar y cyd ag Iechyd Cyhoeddus yn Nyfed a fyddai'n cynnwys y pwnc hwn ar yr agenda.

3.3 Ategwyd bod angen trin y defnydd o gyffuriau fel her i bawb, a nodwyd os bydd y Swyddfa Gartref yn barod i ganiatáu eithriadau i wneud hyn yn wahanol mewn ardaloedd, fel yn achos Cleveland, yna gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, dylem gydweithio i herio'r ffordd y mae pethau yn cael eu gwneud yng Nghymru.

3.4 Roedd PCC Cuthbert yn cytuno bod angen ystyried y sefyllfa o ran marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau ar y cyd, ond cododd bryderon nad yw rhai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithio mor effeithiol ag y gallent ar y mater hwn.

3.5 Diolchodd CC Pam Kelly i'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip am yr ymrwymiad parhaus i gydweithio ac am y cyllid a ddyrennir i gefnogi'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau, ond mynegodd bryderon ynghylch y cyllid a ddyrennir. Esboniodd CC Kelly fod angen goruchwylio ble mae'r arian yn mynd gan fod angen clir am wasanaethau yn hytrach na safleoedd.

3.6 Roedd Naomi Alleyne yn cytuno bod camddefnyddio sylweddau yn bryder gwirioneddol i Lywodraeth Leol, yn benodol yr effaith ar gymunedau – megis nodwyddau yn cael eu gadael ar y llawr, er enghraifft, a pha mor anodd yw cael gafael ar wasanaethau megis tai. Cadarnhaodd Ms Alleyne y byddai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd yn awyddus iawn i gymryd rhan yn y trafodaethau ynghylch mabwysiadu dull cyfunol yn y dyfodol.

3.7 Gofynnodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip am eglurhad o ran sylwadau a wnaed ynghylch Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, gan ofyn pam roedd rhai yn cael eu hystyried i fod yn fwy effeithiol nag eraill?

3.8 Eglurodd PCC Alun Michael fel cyd-gadeirydd y Bwrdd Cynllunio Ardal fod y trafodaethau wedi cychwyn yn lleol, ond y farn oedd na ellid eu datblygu ymhellach a'r gobaith oedd y ceir cyfeiriadau mwy strategol, cyffredinol.

3.9 Dywedodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip ei bod wedi cyfarfod â Paul Griffiths o Gymdeithas yr Uwcharolygwyr a Mark Griffiths o Ffederasiwn yr Heddlu ac roeddent wedi son am bwysigrwydd Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru yn ogystal â'r Adolygiad o Droseddau Difrifol a Chyfundrefnol.

3.10 Dywedodd y Dirprwy PCC Eleri Thomas fod Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabliaid yn bwriadu cyflwyno ymateb cyfunol i'r adolygiad, wedi ei gydgysylltu gan Uned Cyswllt yr Heddlu. Cynigiodd y Dirprwy PCC Thomas y dylai Llywodraeth Cymru rannu ei barn ag Uned Cyswllt yr Heddlu, a fyddai'n cynnwys ei hadborth yn un ymateb gan Gymru.
**Cam Gweithredu 1: Uned Cyswllt yr Heddlu i sicrhau bod mewnbwn gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gynnwys yn yr ymateb gan Gymru i'r Adolygiad o Droseddau Difrifol a Chyfundrefnol.**

3.11 Roedd Tracey Breheny yn cytuno bod angen herio'r sefyllfa bresennol, gan nodi ei chefnogaeth i'r defnydd o Naloxone, a dweud y gallai cyflwyno chwistrellydd trwynol Naloxone fod yn effeithiol iawn. Eglurodd Tracey fod

trafodaethau wedi cael eu cynnal â heddluoedd yn flaenorol pan oedd Naloxone yn cael ei ddefnyddio drwy bigiad, ond roedd y datblygiadau fferyllol yn gwneud yr opsiwn hwn yn fwy cyflawnadwy. Gofynnodd am gefnogaeth Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabliaid i gyflwyno hyn ymhellach ledled Cymru.

3.12 Dywedodd Tracey fod cyfleusterau Triniaeth â Chymorth Heroin yn gyfreithlon, ac anogodd y Comisiynwyr a'r Prif Gwnstabliaid i gynnal trafodaethau yng nghyfarfodydd y Byrddau Cynllunio Ardal i gadarnhau a oedd pobl yn meddwl y byddai cyflwyno darpariaeth o'r fath yn ddefnyddiol.

3.13 Trafodwyd y cyllid a ddyrennir, ac eglurodd Tracey fod y 10% o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru wedi cael ei gyfeirio at fynd i'r afael â marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau, problemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau cysylltiedig yn ogystal â thai.

3.14 Diolchodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip i CC Jukes am y papur ac i DCC Vaughan, PCC Jones a PCC Michael am eu cyflwyniad.

3.15 Dywedwyd y dylid gweld y Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau (https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-10/cynllun-cyflawni-ar-gyfer-camddefnyddio-sylweddau-2019-2022.pdf) yn y dyfodol fel y cyfrwng i ddatblygu'r ymrwymiad cyffredin hwn a symud ymlaen.

3.16 Cydnabuwyd bod y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro Danny Richards yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol ar Gamddefnyddio Sylweddau, sy'n llywodraethu dros y Byrddau Cynllunio Ardal. Fodd bynnag, ar ôl y gofyniad i gychwyn gweithgor penodol ar gyfer camddefnyddio sylweddau, roedd y Prif Weinidog a'r Prif Chwip yn cytuno y byddai'n myfyrio ar y sgyrsiau ynghylch camddefnyddio sylweddau a'r cynnig gan CC Jukes, PCC Jones a CLlLC i gyfarfod â hi; neu ystyried yn gyntaf sut y gellir mynd i'r afael â her gynyddol camddefnyddio sylweddol mewn ffyrdd newydd, gan bwysleisio lleihau niwed, ymyrryd yn gynnar a dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar iechyd y cyhoedd, gan fod yn ymwybodol o Gynllun Cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau.

3.17 **Cam Gweithredu 2: Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip i fyfyrio ar y sgyrsiau ynghylch camddefnyddio sylweddau a'r cynnig gan CC Jukes, PCC Jones a CLlLC i ffurfio gweithgor i ystyried problemau ac atebion.**

**Os bydd angen, Reg Kilpatrick i helpu'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip i lunio cylch gorchwyl y grŵp, gan ystyried y Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau a bodolaeth y Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau.**

## 4. Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru

4.1 Cydnabu'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip fod yr adroddiad yn ardderchog ac yn werthfawr iawn, gan gadarnhau bod y Prif Weinidog wedi cael copi ynghyd â llythyr eglurhaol a'i fod yn gefnogol iawn ac yn ymrwymedig i'r rhaglen. Cydnabuwyd natur drawsbynciol y rhaglen a thynnwyd sylw at y ffaith drawiadol bod y rhaglen wedi cael ei darparu ym mhob ysgol gynradd yng Nghymru.

4.2 Diolchodd PCC Alun Michael i'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, gan ychwanegu bod Comisiynydd Plant Cymru hefyd yn gefnogol iawn i'r Rhaglen, sy'n dangos yn eang yr holl agweddau ar genedlaethau'r dyfodol, sy'n cael eu cefnogi'n llawn gan Heddluoedd yng Nghymru.

4.3 Roedd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip yn cytuno y byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried y cynigion llywodraethu a'r posibilrwydd o sefydlu Grŵp Gweithredu, fel y cynigiwyd yn y llythyr at y Prif Weinidog. Byddai PCC Alun Michael, DPCC Eleri Thomas a DCC Claire Parmenter yn cynrychioli safbwynt plismona.
**Cam Gweithredu 3: PCC Michael i drefnu cyfarfod â Karin Phillips, Gary Haggaty a Tracey Breheny er mwyn trafod y cynigion ar gyfer Gweithredu Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru, er mwyn paratoi ar gyfer diweddariad sylweddol yn ystod cyfarfod nesaf y Bwrdd.**

4.4 Talwyd teyrnged i'r cyn-Ddirprwy Brif Gwnstabl Richard Lewis o Heddlu De Cymru am mai ef a ysgogodd y safbwynt gweithredol ac a fu'n un o hyrwyddwyr y rhaglen o'r dechrau.

## 5. Dyfodol Rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd

5.1 Rhoddodd PCC Alun Michael ddiweddariad ar ran Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Emma Wools.

5.2 Gyda'i gilydd, cafodd y pedwar heddlu yng Nghymru £6.7 miliwn gan y Gronfa Drawsnewid ar gyfer y rhaglen hon, sydd wedi cael ei chanmol yn genedlaethol a'i disgrifio fel arfer orau ledled y DU.

5.3 Tynnodd PCC Michael sylw at y newidiadau i gyllid y Gronfa Drawsnewid, gan nodi bod arian wedi cael ei ailgyfeirio at bortffolio Lleihau Trais ac, er gwaethaf budd cydnabyddedig Rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd, y byddai'n debygol o gael effaith ganlyniadol ar gyllid yn y dyfodol.

5.4 Dywedodd PCC Michael y byddai heddluoedd yn croesawu cyfranogiad Llywodraeth Cymru wrth geisio sicrhau bod cyllid Camau Cynnar Gyda'n Gilydd yn parhau. Eglurodd PCC Michael y byddant yn parhau i lobïo dros gyllid a bod cynlluniau wrth gefn yn cael eu hystyried. Tynnwyd sylw at Adolygiad Llywodraeth Cymru o'r Hyb Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.

5.5 Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip ei bod yn gobeithio y byddai cyllid ar gyfer y prosiect hwn yn cael ei ystyried yn ffafriol yn dilyn yr Etholiad Cyffredinol.

5.6 **Cam Gweithredu 4: Trafodaeth i barhau i fod yn fyw ynghylch cyllid ar gyfer Rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd yn sgil yr ansicrwydd parhaus am ddyfodol Cronfa Drawsnewid yr Heddlu**

5.7 **Cam Gweithredu 5: Plismona yng Nghymru i gael ei gynnwys yn Adolygiad Llywodraeth Cymru o'r Hyb Profiadau Newidiol mewn Plentyndod**

## 6. Adroddiad y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru "Cyfiawnder yng Nghymru dros Bobl Cymru"

6.1 Dywedodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip fod cydnabyddiaeth gadarn drwy'r Siambr gyfan bod y gwaith hwn yn nodedig.

6.2 Mae'r Cabinet wedi comisiynu is-bwyllgor i ystyried yn fanwl yr adroddiad a'r gwaith dadansoddi sydd ei angen.

6.3 Dywedodd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabliaid nad oedd angen newid deddfwriaethol ar gyfer llawer o'r agweddau a drafodir yn adroddiad y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru. Cynigiodd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabliaid y dylid trafod camau gweithredu i ymdrin â materion perthnasol â Llywodraeth Cymru, gyda safbwynt plismona yn cael ei gynnwys mewn unrhyw Grŵp Gweithredu.
**Cam Gweithredu 6: Llywodraeth Cymru i ystyried cynnig Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabliaid i gydweithio ar yr argymhellion yn Adroddiad y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru nad oes angen i Lywodraeth y DU wneud newidiadau deddfwriaethol ar eu cyfer.**

## 7. Blaenoriaethau a Heriau ar gyfer Plismona yng Nghymru

a) Heddlu Dyfed-Powys

7.1 Dywedodd CC Collins fod troseddwyr yn cael eu rheoli o dan ddarpariaeth Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd, yn benodol mewn perthynas â thai ar gyfer troseddwyr. Cadarnhaodd CC Collins ei fod yn fodlon y bydd hyn yn cael ei ddatblygu'n lleol ond ei fod yn faes a fydd yn parhau i gael ei fonitro'n agos.

7.2 Rhoddwyd sicrwydd bod gweithgarwch ar y cyd â thimau troseddau gwledig ledled Cymru yn cael effaith gadarnhaol ar droseddau gwledig.

7.3 Mae mudiad Extinction Rebellion yn parhau i greu heriau ledled Cymru.

7.4 Dywedodd PCC Dafydd Llywelyn y byddai'n croesawu'r cyfle i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu esbonio i'r Bwrdd y gwaith y mae Swyddfeydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn ei wneud, er mwyn rhoi darlun cliriach.
**Cam Gweithredu 7: Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i gyflwyno dogfen ategol gan Swyddfeydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i gyd-fynd ag adroddiadau eithriadol heddluoedd er mwyn rhoi darlun cliriach i'r Prif Weinidog/Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip o'r gwaith y mae Swyddfeydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn ei wneud.**

b) Gwent

7.6 Pwysleisiodd CC Kelly fod Diogelu yn parhau i fod yn achos pryder. Eglurodd fod amharodrwydd i ymgysylltu â phartneriaid, yn enwedig o ran cyllid Canolfannau Diogelu Amlasianaeth, yr ystyrir eu bod yn hanfodol. Dywedodd CC Kelly ei bod am i'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip gynnig cefnogaeth drwy annog partneriaid i ymgysylltu'n fwy.
Ni roddwyd ymateb yn y cyfarfod.

c) Gogledd Cymru

7.7 Pwysleisiodd CC Foulkes fod Llinellau Cyffuriau yn parhau i fod yn fygythiad a chynigiodd rannu astudiaeth achos ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol er mwyn i bawb gael deall yn well oblygiadau Llinellau Cyffuriau o ran costau ac adnoddau.
**Cam Gweithredu 8: Astudiaeth achos ynghylch Llinellau Cyffuriau i'w chyflwyno mewn cyfarfod yn y dyfodol, gan dynnu sylw at y goblygiadau o ran costau ac adnodau.**

d) De Cymru

7.8 Soniodd DCC Vaughan am y galwadau unigryw ar Gaerdydd fel y Brifddinas, er nad oedd yn cael unrhyw gyllid ychwanegol. Dywedwyd bod natur unigryw'r Ddinas yn costio £4 miliwn ond nad yw hynny'n cael ei gydnabod.

7.9 Yn dilyn y digwyddiadau trasig yn Llundain yn ystod yr wythnos flaenorol, rhoddodd DCC Vaughan drosolwg gweithredol o'r gwaith sy'n cael ei gynnal ledled Cymru.

7.10 Diolchodd PCC Michael i'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip am fod yn bresennol yn Lansiad Ymgyrch Atal Trais yr wythnos flaenorol. Nodwyd y bydd Mr Jonathan Drake yn dechrau fel Pennaeth yr Uned ddydd Llun 9 Rhagfyr.

7.11 Er nad yw wedi dechrau'n swyddogol eto, eglurodd Mr Drake ei fod wedi bod yn cydgysylltu'n agos â Tracey Cooper o Iechyd Cyhoeddus Cymru a chynigiodd gyflwyno adroddiadau uchafbwyntiau i Fwrdd Partneriaeth Plismona Cymru yn y dyfodol fel y caiff y Bwrdd wybod am y gwaith sy'n mynd rhagddo.

**Cam Gweithredu 9: Mr Jon Drake i fynychu cyfarfodydd Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru a chyflwyno adroddiadau uchafbwyntiau i'r Bwrdd ar ran Uned Atal Trais Cymru Gyfan.**

**8. <u>Cynllunio wrth gefn ar gyfer Gadael yr UE</u>**

8.1 Trafodwyd gwendidau posibl ym Mhorthladd Caergybi a phorthladdoedd eraill yn y DU.

8.2 Cadarnhawyd nad oes gan swyddogion yr heddlu bresenoldeb parhaol ym Mhorthladdoedd Caergybi nac Abergwaun ond bod swyddogion ffiniau ychwanegol wedi cael eu recriwtio yng Nghaergybi a bod y broses recriwtio ar waith yn Abergwaun.
**Cam Gweithredu 10: Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip ei bod o blaid ysgrifennu at Ysgrifennydd Gwladol newydd Cymru (pan gaiff ei benodi) er mwyn amlygu pryderon ynghylch diogelwch porthladdoedd yng Nghymru.**

**9. <u>Diweddariadau ar y ddau Weithgor Gorchwyl a Gorffen y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod diwethaf</u>**

9.1 **Grŵp Gorchwyl a Gorffen sy'n ystyried ymgysylltu â busnesau yng Nghymru yn seiliedig ar eu cyfrifoldeb corfforaethol a chymdeithasol wrth fynd i'r afael â materion diogelu ar-lein**

9.2 Ni thrafodwyd yr eitem hon yn y cyfarfod.

9.3 **Grŵp Gorchwyl a Gorffen sy'n ystyried y Galw o ran Iechyd Meddwl**

9.4 Eglurwyd y cam gweithredu o'r cyfarfod diwethaf. Cadarnhawyd nad oedd yn cyfeirio at y Concordat Gofal mewn Argyfwng ond ei fod yn ymwneud ag argymhellion yr adolygiad Annibynnol o adolygiad y Ddeddf Iechyd Meddwl a'i nod penodol oedd ystyried y pwysau ar wasanaethau – o ran y pwysau ar Blismona ac ar wasanaethau Llywodraeth Cymru. Cadarnhaodd Tracey Breheny fod disgwyl i Lywodraeth y DU gyhoeddi Papur Gwyn i amlinellu'r ymateb i'r adolygiad annibynnol yn gynnar yn 2020 ac y byddai angen i ni sicrhau bod partneriaid, gan gynnwys cydweithwyr yn yr heddlu, yng Nghymru yn ymgysylltu â hyn.

**Cam Gweithredu 9.5: Yn dilyn y cam gweithredu yn y cyfarfod diwethaf i sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried y Galw o ran Iechyd Meddwl, Andrew Goodall a Tracey Breheny i gyfarfod â PCC Alun Michael a CC Mark Collins er mwyn egluro'r trefniadau gorau ar gyfer ymgysylltu â'r heddlu ar y mater hwn.**

**10. <u>Cofnodion y cyfarfod blaenorol (26/09/2019) a'r Tabl Camau Gweithredu</u>**

10.1 Cytunwyd bod y cofnodion blaenorol yn gofnod cywir o'r cyfarfod

10.2 Gofynnodd PCC Cuthbert am y wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu sy'n parhau o ran y Lefi Brentisiaethau.
Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip fod y trafodaethau yn parhau a bod y Swyddfa Gartref yn gwbl ymwybodol o'r sefyllfa. Cam Gweithredu i aros ar y Rhestr o Gamau Gweithredu.

10.3 Ailgydiodd PCC Michael mewn sgwrs flaenorol ynghylch y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, gan dynnu sylw at fwlch yn y dirwedd partneriaethau gan nad yw cynrychiolwyr yr heddlu yn mynychu'r cyfarfodydd hyn.
**Cam Gweithredu 11: Reg Kilpatrick i fynd ar drywydd cais gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu y dylid gwahodd cynrychiolydd o'r heddlu i gyfarfodydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.**

10.4 Diolchodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip i'r heddluoedd am eu help a'u hadborth adeiladol ynghylch Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol.

10.5 Eglurodd PCC Llywelyn fod y trafodaethau'n parhau ynghylch presenoldeb y Swyddfa Gartref yng nghyfarfodydd Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru yn y dyfodol.

**11. <u>Thema'r cyfarfod nesaf</u>**

11.1 Cadarnhawyd mai bod yn agored i niwed fydd thema'r cyfarfod nesaf

**12. <u>Dyddiad ac Amser y cyfarfod nesaf</u>**

12 Mawrth 2020, 13:00 – 15:00 yng Nghaerdydd

**13. <u>Gorffen</u>**

Diolch y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip i'r holl aelodau am eu cyfraniad.

<u>Cyfarfodydd sydd i ddod</u>

| | |
|---|---|
| 12 Mawrth 2020 | 13:00 – 15:00 |
| 18 Mehefin 2020 | 13:00 – 15:00 |
| 17 Medi 2020 | 13:00 – 15:00 |
| 3 Rhagfyr 2020 | 13:00 – 15:00 |

**<u>Camau Gweithredu Newydd o gyfarfod 05/12/2019</u>**

| Cam Gweithredu | Cyfrifoldeb |
|---|---|
| (3.10)<br>Cam 1: Uned Cyswllt yr Heddlu i sicrhau bod mewnbwn gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gynnwys yn yr ymateb gan Gymru i'r Adolygiad o Droseddau Difrifol a Chyfundrefnol. Mae'r Prif Gwnstabliaid a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn bwriadu rhoi mewnbwn ar y cyd i Adolygiad Llywodraeth y DU o Droseddau Difrifol a Chyfundrefnol, gan gytuno bod barn Llywodraeth Cymru yn bwysig.<br>Swyddogion Llywodraeth Cymru/Uned Cyswllt yr Heddlu | Swyddogion Llywodraeth Cymru/Uned Cyswllt yr Heddlu |
| (3.17)<br>Cam 2: Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip i fyfyrio ar y sgyrsiau ynghylch camddefnyddio sylweddau a'r cynnig gan CC Jukes, PCC Jones a CLlLC i ffurfio gweithgor i ystyried problemau ac atebion.<br><br>Os bydd angen, Reg Kilpatrick i helpu'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip i lunio cylch gorchwyl y grŵp, gan ystyried y Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau. | Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip ac RK a TB |
| (4.3)<br>Cam 3: Cyflwynwyd adroddiad Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru a chytunwyd y dylid sefydlu Grŵp Gweithredu fel y cynigiwyd yn y llythyr at y Prif Weinidog. Byddai PCC Alun Michael, DPCC Eleri Thomas a DCC Claire Parmenter yn cynrychioli safbwynt plismona.<br><br>PCC Michael i drefnu cyfarfod â Karin Phillips, Gary Haggaty a Tracey Breheny er mwyn trafod Grŵp Gweithredu Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru, er mwyn paratoi ar gyfer diweddariad sylweddol yn ystod cyfarfod nesaf y Bwrdd. | AM/KP/GH/TB |
| (5.6)<br>Cam 4: Trafodaeth i barhau i fod yn fyw ynghylch cyllid ar gyfer Rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd yn sgil yr ansicrwydd parhaus am ddyfodol Cronfa Drawsnewid yr Heddlu | AM/EW a KP/GH |
| (5.7)<br>Cam Gweithredu 5: Plismona yng Nghymru i gael ei gynnwys yn Adolygiad Llywodraeth Cymru o'r Hyb Profiadau Newidiol mewn Plentyndod | EW/JV |
| (6.3)<br>Cam Gweithredu 6: Llywodraeth Cymru i ystyried cynnig Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabliaid i gydweithio ar yr argymhellion yn Adroddiad y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru nad oes angen i Lywodraeth y DU wneud newidiadau deddfwriaethol ar eu cyfer. | KP/GH |

| Cam Gweithredu | Cyfrifoldeb |
|---|---|
| (7.5)<br>Cam Gweithredu 7: Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i gyflwyno dogfen ategol gan Swyddfeydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i gyd-fynd ag adroddiadau eithriadol heddluoedd er mwyn rhoi darlun cliriach i'r Prif Weinidog/Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip o'r gwaith y mae Swyddfeydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn ei wneud. | Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu |
| (7.7)<br>Cam Gweithredu 8: Y Prif Gwnstabl Carl Foulkes i ddarparu astudiaeth achos ynghylch Llinellau Cyffuriau mewn cyfarfod yn y dyfodol, gan dynnu sylw at y goblygiadau o ran costau ac adnoddau. | CF |
| (7.12)<br>Cam Gweithredu 9: Mr Jon Drake i fynychu cyfarfodydd Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru a chyflwyno adroddiadau uchafbwyntiau i'r Bwrdd ar ran Uned Atal Trais Cymru Gyfan. | JD |
| (8.12)<br>Cam Gweithredu 10: Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip ei bod o blaid ysgrifennu at Ysgrifennydd Gwladol newydd Cymru (pan gaiff ei benodi) er mwyn amlygu pryderon ynghylch diogelwch porthladdoedd yng Nghymru. | Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip |
| (9.5)<br>Cam Gweithredu 11: Yn dilyn y cam gweithredu yn y cyfarfod diwethaf i sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried y Galw o ran Iechyd Meddwl, Andrew Goodall a Tracey Breheny i gyfarfod â PCC Alun Michael a CC Mark Collins er mwyn egluro cylch gorchwyl ac aelodaeth y grŵp. | AG/TB ac AM/MC |
| (9.5)<br>Cam Gweithredu 11: Reg Kilpatrick i fynd ar drywydd cais gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu y dylid gwahodd cynrychiolydd o'r heddlu i gyfarfodydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. | RK |